**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbwr CEINEWYDD a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda nos Iau, 28 Mai 2026**

**Ar ran Cyngor Sir Ceredigion:** Cynghorydd Shelley Childs (Cadeirydd), Cynghorydd Elizabeth Evans

**Swyddogion yn bresennol:** Ellie Waters, Robyn Beresford a Dana Jones

**Defnyddwyr yr Harbwr:** Chris Seal, Mike Masters a Kevin Sandover

(6.30pm – 7:15pm)

**1. Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Matthew Vaux ac Owen Morgan am nad oedd modd iddynt fod yn y cyfarfod.

**2. Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Hydref 2025**

CYTUNWYD i gadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Hydref 2025 yn gywir.

**3 Diweddariad gan Wasanaeth yr Harbyrau**

Cyflwynodd Ellie Walters ei hun fel y Rheolwr Corfforaethol ar gyfer Cynaliadwyedd a Thrafnidiaeth.

O ran staffio, dywedodd fod un cynorthwy-ydd tymhorol yn dychwelyd ac y bydd un arall yn dechrau ym Mehefin, yn dibynnu ar wiriadau.

Nododd y Pwyllgor fod archwiliad y Côd Diogelwch mewn Porthladd *(Port Marine Safety Code)* wedi'i gynnal ac wedi canfod bod y gwasanaeth yn cydymffurfio gan mwyaf. Roedd un achos o ddiffyg cydymffurfio yn weddill, mewn perthynas â sut i ymateb i olew yn arllwys, ac roedd hyn yn cael sylw drwy ddatblygu polisi a hyfforddi swyddogion, ac roedd Aelodau Cabinet yn ymgymryd â Hyfforddiant Deiliad Dyletswydd.

**4 Rhestr Aros ddiwygiedig Angorfeydd**

Cododd y Pwyllgor bryderon ynglŷn â chostau cynyddol gan gynnwys cynnydd mewn ffioedd angori a'r taliadau am godi â chraen, a'r effaith ar y defnydd a wneir o'r harbwr. Adroddwyd bod y codiadau hyn wedi cyfrannu at ostyngiad yn y cychod hwylio bach a symudiad tuag at dingis a defnyddwyr achlysurol o'r dŵr. Adroddwyd bod yr angorfeydd yn hanner gwag ddiwedd mis Mai mewn cymhariaeth â'r blynyddoedd blaenorol, gyda'r harbwr bellach ymhlith y drutaf ar arfordir y gorllewin. Roedd hyn yn rhwystro perchnogion rhag angori yng Ngheinewydd, ac felly hefyd yn Aberaeron.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod 20 ar y rhestr aros hamdden, ac nad oedd rhestr aros masnachol.

Adroddwyd gan ddefnyddwyr yr harbwr fod canolfan Chwaraeon Dŵr Bae Ceredigion/ *Cardigan Bay Watersports* yn wynebu heriau ariannol am fod llai yn



DRAFT

llogi offer gan fod defnyddwyr yn prynu padlfyrddau a chaiacs, ynghyd â llai o ddiddordeb yn gyffredinol mewn hwylio. Ystyriwyd ymgysylltu ag ysgolion lleol i gynyddu cyfranogiad drwy sesiynau blasu penodol a sesiynau allgymorth i ysgolion (awgrymwyd dwywaith y mis fesul ysgol) i ddenu disgyblion a'u cael i gario ymlaen i hwylio cychod/dingis. Serch hynny, gallai fod anawsterau i'r cynnig hwn o ran iechyd a diogelwch, diffyg bysiau bach gan ysgolion, a rhwystrau yswiriant. Awgrymwyd bod cynnig sesiynau ar ddiwedd yr haf yn opsiwn.

**5. Cynnal a Chadw Cyffredinol a Glendid**

Cwblhawyd y gwaith rheolaidd gan gynnwys chwynnu rac y caiacs; tynnu'r postyn lamp o'r traeth; sgwrio'r llithrfa a grisiau Pen Polion i leihau'r risg o lithro. Roedd contract atgyweirio rheilins Pen Polion a llif-olchi'r llithrfeydd ar fin cael ei ddyfarnu. Hefyd roedd arwyddion newydd yn cael eu paratoi ar gyfer gweithrediadau llongau masnachol a rhybuddion rhag cael eich ynysu gan y llanw. Llenwyd dwy sgip ar ôl gwaredu ag eitemau oedd ar y pier yn dilyn cais gan Gyngor Tref Ceinewydd.

**6. Materion a godwyd gan Ddefnyddwyr yr Harbwr**

Gofynnwyd am ddiweddariad ar y sefyllfa ynghylch tywod/ gwaddodion yn casglu yn Harbwr Aberaeron.

Carthwyd wrth fynedfa harbwr Aberaeron ym mis Ebrill a gwnaed gwaith dros dro wrth Grwynau Traeth y De i leihau symudiad y gwaddod. Roedd ateb peirianegol hirdymor yn cael ei ddatblygu, a fyddai angen trwydded forol ac ymgynghoriad cyhoeddus. Adroddwyd y byddai angen ymgynghori gyda Chyfoeth Naturiol Cymru er mwyn datblygu atebion tymor hir.

Adroddwyd bod y sianel fordwyo wedi'i chyfyngu o bryd i'w gilydd o achos bod cychod masnachol yn angori yn yr harbwr gwaith.

Ar ôl carthu tywod yng Ngheinewydd, roedd cerrig mawr wedi'u dyddodi mewn mannau anarferol. Adroddwyd bod Rheolwr yr Harbwr a'r Harbwrfeistr Cynorthwyol yn rhoi sylw i'r mater.

Gwnaeth un o ddefnyddwyr yr harbwr ganmol Robyn Beresford am ei gwaith caled a'i hagwedd cadarnhaol wrth reoli Harbwr Ceinewydd.

Dymunwyd yn dda i Winston Evans ar ôl iddo gwympo'n ddiweddar.